# Anuga, Cologne

PRYD
**4-8 Hydref 2025**

PRIF SECTORAU
**Bwyd a Diod**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd eich cwmni i gyd-arddangos yn Anuga, Cologne.

### PAM ANUGA 2025?

Mae Anuga yn uno'r byd bwyd a diod mewn un cysyniad unigryw, gyda 10 sioe fasnach o dan yr un to. Byddwch yn rhan o bafiliwn proffil uchel Cymru Wales lle byddwch yn elwa ar leoliad blaenllaw yn y digwyddiad a phecyn cymorth cynhwysfawr. Dyma ddigwyddiad bob dwy flynedd, masnach yn unig, na ddylid ei golli!

### PAM MYNYCHU?

Bydd yr ymweliad hwn y byddwch yn derbyn cymhorthdal tuag ato, yn rhoi cyfle ichi arddangos eich cwmni, meithrin cysylltiadau gwerthfawr a datblygu'ch allforion yn y rhanbarth hwn.

Drwy gymryd rhan, dyma'r manteision i'ch busnes chi:

- Ffordd gost effeithiol o ymweld â'r farchnad
- Cael presenoldeb o dan frand Cymru Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Rhwydweithio a siarad â busnesau a phenderfynwyr blaenllaw yn y farchnad
- Rhannu profiadau a gwybodaeth â chyfranogwyr eraill o Gymru a'r DU
- Cael eich cynnwys mewn unrhyw ddeunyddiau marchnata

### Y GOST

Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu â chostau arddangos – gweler cost yr opsiynau â chymorth isod:

**Cost Arddangoswr – £3,995.00 (ynghyd â TAW), fesul arddangoswr.**

- Llety am chwe noson (cyrraedd y diwrnod cyn y sioe) gyda brecwast i un person
- Pris person ychwanegol £995.00 (ynghyd â TAW)
- Gofod arddangos pwrpasol o dan frand Cymru Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Paneli graffig sylfaenol a dodrefn
- Gwybodaeth amdanoch yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Pàs arddangoswr i'r sioe
- Cefnogaeth ar y safle gan staff Llywodraeth Cymru
- **Sylwch fod arddangoswyr yn gyfrifol am ddanfon eu nwyddau eu hunain**

**Mae Ymweliadau Allforio ar gael am gost o £995.00 ynghyd â TAW. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.**

### DYDDIAD CAU:

**11 Gorffennaf 2025**

**Os bydd eich cais yn ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn, gallem godi tâl uwch am lety.**

E-bostiwch am ffurflen gais neu ragor o wybodaeth:
shirley.mcgilvray@llyw.cymru

OGL
WG52339 / © Hawlfraint y Goron 2025